# CYNGOR CYMUNED LLANWNDA

## COFNODION - MAWRTH 2015

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Nos Fercher, 18 Mawrth |
| **AMSER** | 7.00pm |
| **LLEOLIAD** | Ysgol Rhostryfan |

| | |
|---|---|
| 1. | **Croeso**<br>Croesawyd pawb gan y Cadeirydd.<br><br>Yn bresennol roedd: Aeron M Jones, Jason Hunt, Elwyn Jones, Gwilym Ll Williams (Cadeirydd), hefyd yn bresennol roedd Caryl Elin Lewis (Clerc).<br><br>Mynegodd aelodau eu cydymdeimlad gyda Elwyn Jones a Nerys Evans yn dilyn eu colled diweddar. |
| 2. | **Ymddiheuriadau**<br>Cafwyd ymddiheuriadau gan Michelle Williams, Gwilym V Thomas, Rhys Owen, Elin Evans, Nerys Evans, Neal Williams. |
| 3. | **Datgan Buddiant**<br>Elwyn Jones **-** Cais Cynllunio Heulfryn, Rhostryfan |
| 4. | **Cadarnhau cofnodion 18 Chwefror 2015**<br>Derbyn fel cofnod cywir. |
| 5. | **Materion i'w trafod:**<br><br>a. **Tendro – Mynwent, llwybrau a cysgodfannau**<br><br>Derbyniwyd 8 amlen mewn cyfanswm. Agorwyd pob amlen yn ofalus ac arwyddwyd. Cytunwyd ar y canlynol:<br>- Llwybrau – Wyn Williams. Roedd y Cyngor yn hapus iawn gyda safon ei waith dros y blynynyddoedd ac yn awyddus iddo barhau.<br>- Cysgodfannau – Wyn Williams<br>- Mynwent – Sion Owen<br>Bydd y clerc yn mynd ati i lythyru ymgeiswyr aflwyddiannus ac i drefnu cytundebau newydd ar gyfer y rhai llwyddiannus.<br><br>b. **Cyfansoddiad, Polisiau a Cynllun 5 mlynedd (AMJ)**<br><br>Nododd AMJ fod posibilrwydd cryf y bydd rol Cynghorau Cymuned yn newid gyda mwy o bwyslais ar gymryd cyfrifoldebau ychwanegol ymlaen. Felly, mae angen sicrhau fod polisiau cadarn mewn lle. Nododd y clerc fod y polisiau yn hen iawn ac angen ei diweddaru.<br>Hefyd nododd AMJ fod angen i'r cyngor gynllunio ymlaen llaw a chael cynllun a fydd yn nodi blaenoriaethau dros y blynyddoedd nesaf e.e. bydd angen nodi cynllun y fynwent ynddo. Clerc ac AMJ i weithio ar drafftiau o'r polisiau a chynllun 5 mlynedd a'i cyflwyno i Aelodau.<br><br>c. **Tap dwr y fynwent (NE)**<br>JH wedi gwneud ymholiadau – mae'n debyg mai'r beipan o dan ddaear sydd wedi cau fyny. Clerc i ofyn wrth Sion Owen i dyllu lawr lle mae'r tap i weld beth ydy'r broblem a cheisio newid y peipiau**.**<br><br>d. **Waun Bant – Llwybr (AMJ)**<br>Nodwyd fod deiseb wedi dod gan aelodau o'r gymuned yn erbyn cau'r llwybr. Clerc i gydnabod. Mae'r broblem yn parhau a cytunodd Aelodau i roi cais i mewn i geisio cofrestru'r llwybr fel un swyddogol. Clerc i drafod gyda Gerallt, Swyddog Llwybrau.<br><br>e. **Safle we integredig (AMJ)**<br>Nodwyd fod y safle we bellach yn fyw |

| | |
|---|---|
| | f. **Japanese knotweed - grantiau (RO)**<br>Gohirio gan for RO yn absennol.<br><br>g. **Dwr yn dod i'r lon (ar groesfford, pen groeslon rhos isaf) (NE)**<br>Clerc wedi llythyru Meirion Willams, Priffyrdd, heb dderbyn ymateb erbyn y cyfarfod gan ei fod newydd ddychwelyd o'i wyliau.<br><br>h. **Leins gwynion ganol lon - fyny o Ffrwd Cae Du i sgwar Rhostryfan (GVT)**<br>Clerc wedi llythyru Meirion Willams, Priffyrdd, heb dderbyn ymateb erbyn y cyfarfod gan ei fod newydd ddychwelyd o'i wyliau<br><br>i. **Sedd wag Rhosgadfan**<br>Clerc i drefnu hysbyseb yn Lleu. |
| 6. | **Derbyn Adroddiadau**<br>Elin Evans – Cae drws nesaf i Sain, problemau gyda'r datblygiadau ar y tir yn parhau. Clerc i lythyru Cyngor Gwynedd i holi am ddiweddariad. |
| 7. | **Is-bwyllgorau**<br>Dim i adrodd |
| 8. | **Materion Ariannol (Adroddiad i'w gyflwyno yn y cyfarfod)**<br>Cyflwynwyd adroddiad ariannol gan y clerc yn nodi taliadau i mewn ac allan ers y cyfarfod diwethaf. Aelodau yn hapus i dalu'r 5 anfoneb a gyflwynwyd.<br><br>**<u>Sefyllfa Ariannol y Cyngor ar 16 Mawrth 2015</u>**<br><br>**<u>Ers cyfarfod 18 Chwefror 2015, talwyd allan:</u>**<br>101283 Cylch Meithrin Llanwnda £300.00<br>101276 Swyddfa'r Post PAYE (Ion) £90.00<br>101280 Swyddfa'r Post PAYE (Chwef) £90.00<br>101282 Zurich Municipal £1,366.85<br>101285 Theatr Bara Caws £100.00<br>101286 Clwb Peldroed Ieuenctid Bontnewydd £250.00<br>101281 Hacker Young £480.00<br>101292 Marie Curie £200.00<br>101291 Dawns i Bawb £100.00<br>101289 Lleu £100.00<br>101279 Caryl Lewis £402.50<br>101278 JD Roberts Cyfrifydd £63.00<br>101284 Pwyllgor Cae Chwarae Rhosgadfan £1,000.00<br><br>**<u>Ers cyfarfod 18 Chwefror 15, talwyd i mewn:</u>**<br>Robyns & Owen (2 gladdiad) £460.00<br><br>**Yn y Cyfrif Cadw ar derfyn busnes 16 Mawrth 2015: £8,675.37**<br>**Yn y Cyfrif Siec ar derfyn busnes 16 Mawrth 2015: £4,127.13**<br><br>**<u>Taliadau i'w cytuno arnynt yng ngyfarfod 18 Mawrth 2015:</u>**<br>Cyflog Clerc 402.50<br>Cyllid y Wlad (Swyddfa'r Post) 90.00<br>Trinity Mirror 154.80<br>**Cyfanswm £647.30** |



Clerc: Caryl Elin Lewis - ebost: clercllanwnda@yahoo.co.uk- ffon: 01286 830992

| | |
|---|---|
| 9. | **Materion Cynllunio**<br>Heulfryn, Rhostryfan - Elwyn Jones yn datgan diddordeb.<br><br>Dim gwrthwynebiad gan Aelodau i'r cais. |
| 10. | **Gohebiaeth:**<br>a. Llythyrau diolch am nawdd wedi eu derbyn.<br>b. Llythyr – deiseb am gau llwybr Waun Bant – Clerc i gydnabod.<br>c. LDP – clerc i rannu linc at y safle gwe. |
| 11. | **Materion Cyfarfod Nesaf:**<br><br>**JH –** Problemau gyda'r Afon o Bont Carreg Lwyd. Nid oes digon o le i ddwr fynd o dan y bont felly pan mae llifogydd mae dwr yn dod dros y bont. Cynnig ein bod yn trafod gyda'r Cwmni Rheilffordd sut y gellir gwella. Byddai'r pentref yn elwa ohono a'r cyngor cymuned yn elwa oherwydd y llwybr**.**<br><br>**EJ –** sbwriel rhwng Rhosgadfan, Rhostryfan a Ffrwd Cae Du yn broblem. Angen gofyn am arwyddion gan y cyngor sir yn nodi fod cosb os ydy nhw'n cael eu dal.<br><br>**GVT –** Wedi dechrau cario llechi o chwarel Foel, loriau yn dod drwy Rhosgadfan. 4 lori wedi pasio diwrnod or blaen. Ydy nhw fod i fynd drwy Rhosgadfan? Gareth Roberts – Priffyrdd Cyngor Gwynedd sydd i fod yn gwbod hyn. Y cytundeb ydy fod nhw'n dod i fyny drwy Rhosgadfan a lawr drwy Carmel. |
| | Daeth y cyfarfod i ben am 8:50pm.<br>Dyddiad Cyfarfod nesaf: **15 Ebrill 2015** |



Clerc: Caryl Elin Lewis - ebost: clercllanwnda@yahoo.co.uk- ffon: 01286 830992